

---

## Darganfod mathemateg MU123

---

*Patrwm cyflwyno*      *O fis Chwefror i fis Medi*  
*O fis Hydref i fis Mehefin*

### *Disgrifiad o'r modiwl*

Bydd y modiwl hwn yn magu hyder y myfyrwyr mewn mathemateg ac yn eu helpu i ymgorffori meddwl mathemategol i'w bywydau bob dydd. Ei nod yw datblygu eu gwybodaeth am gysyniadau sylfaenol mathemateg sydd eu hangen ar gyfer astudiaeth uwch, a meysydd eraill o'r cwricwlwm yn ogystal â'u sgiliau ynddynt. Byddant yn cwmpasu cysyniadau a thechnegau ystadegol, graffigol, algebraidd, trigonometrig a rhifyddol a chyflwyniad i fodelu mathemategol a'r syniad o brofi. Nid yw calcwlws ffurfiol wedi'i gynnwys. Yn ogystal â sgiliau mathemategol, bydd y modiwl yn helpu'r myfyrwyr i ddatblygu sgiliau TGCh, cyfathrebu a chyflogadwyedd sy'n berthnasol i fathemateg ar y lefel hon. Fel rhan hanfodol o'r modiwl, bydd y myfyrwyr yn defnyddio gweithgareddau ac adnoddau rhyngweithiol ar-lein. Modiwl Lefel 1 rhagarweiniol allweddol yw hwn felly caiff y myfyrwyr fwy o gymorth i baratoi a chymorth ar ffurf tiwtorialau o gymharu â modiwlau lefel uwch. Mae'r myfyrwyr yn astudio MU123 am resymau amrywiol a diddorol ac mae ganddynt nodau gwahanol sy'n cyflwyno cyfleoedd a heriau i'r tiwtoriaid.

### *Manyleb y person*

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored yn ogystal â'r disgrifiad llawn o fodiwl MU123.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol

- gradd anrhydedd â chynnwys mathemategol neu ystadegol sylweddol
- profiad o addysgu pynciau mathemategol neu ystadegol (mewn sefydliad addysg uwch yn ddefnyddol) i oedolion neu fyfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd addysgol
- brwdfrydedd dros berthnasedd mathemateg mewn bywyd bob dydd fel ffordd o ddatblygu hyder oedolion i ddefnyddio mathemateg
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth gyflawn o ddeunydd y modiwl (er enghraifft drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad)
- y gallu a'r parodrwydd i gynnal tiwtorialau wyneb yn wyneb ac ar-lein
- y gallu a'r parodrwydd i gefnogi'r broses o ddatblygu sgiliau mathemategol a strategaethau astudio ymysg myfyrwyr â diddordebau a dyheadau amrywiol
- cyfarpar a sgiliau TG priodol
  - ymrwymiad i gadw eich sgiliau a'ch gwybodaeth yn gyfredol
  - y gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
    - Gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
    - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
    - E-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill yn anghydamseredig
    - Meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant)
    - Marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig ar y sgrin ar ffurf pdf.

### *Gwybodaeth ychwanegol*

- Mae'n bosibl y bydd aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid yn cynnwys cwestiynau sydd wedi'u cynllunio i helpu myfyrwyr ddatblygu sgiliau astudio priodol ac atgyfnerthu eu dysgu.
- Gan y bydd gan fyfyrwyr ar y modiwl hwn ddewis i gyflwyno eu haseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) yn electronig drwy system TMA/EMA ar-lein y Brifysgol, bydd gofyn i chi farcio a rhoi adborth ar y TMA a gyflwynir yn electronig a dychwelyd y gwaith a farciwyd fel ffeil electronig, yn y ffurflen ragnodedig, i wasanaeth TMA/EMA ar-lein y Brifysgol. Os cewch eich gwahodd am gyfweiliad, bydd y rhan olaf yn cynnwys ymarfer marcio electronig, rhoddir arweiniad ar hyn. Bydd rhagor o wybodaeth a chyngor ar gael pe byddech yn cael eich penodi i'r rôl.
- Mae'n bosibl y caiff natur y cyfleusterau e-ddysgu a systemau'r Brifysgol i fonitro cynnydd myfyrwyr a delio ag aseiniadau a gaiff eu marcio gan diwtoriaid (TMA) eu newid yn y dyfodol, a bydd angen i chi addasu yn unol â hynny. Noder y bydd disgwyl i diwtoriaid ddefnyddio eu cyfarpar eu hunain ar gyfer pob agwedd ar e-ddysgu yn unol â pholisi'r Brifysgol.

### *Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan*

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	5
Dull cyflwyno aseiniadau:	3
Lefel y gofynion TGCh:	1b
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	4.5